**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**
**GORFFENNAF 17EG 2024 AM 7:30YH**
**CYNHALIWYD YN LLANGERNYW**

**1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**
**1.1** Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)
**1.2** Presennol: Einir Williams (EW), Jane Roberts (JR), Ann Vaughan (AV), Myrddin Davies (MGD), Diane Roberts (DR), Euros Williams (EUW), Austin Roberts (AR) & Catrin Griffiths (Clerc, CWG)
**1.3** Ymddiheuriadau: Gwydion Jones (GJ), Sara Thomas (ST)

**2 DATGANIAD DIDDORDEB**
Dim datganiad.

**3 COFNODION MEHEFIN 26AIN 2024 I'W GWIRIO**
Cynigwyd yn gywir gan MGD ac eiliwyd gan AV .

**4 MATERION YN CODI**
**4.1** Arwyddion beicio'n ddiogel - Dywedodd AV nad yw'r arwyddion byth wedi cyrraedd ac ategodd JR hyn drwy ddweud bod llawer o gerbydau yn goryrru ar hyd y ffyrdd lleol. Nododd DR fod y goleuadau sy'n fflachio wrth Barc Aelas yn arafu pobl a dywedodd hefyd fod Cyngor Cymuned Llanrhaeadr dim ond wedi talu £4,000 o bunnoedd am eu harwydd hwy. Dywedodd AV fod yr heddlu i fod yn gosod yr arwyddion beicio'n ddiogel i fyny a'i bod wedi bod yn siarad gyda Darren Millar i geisio eu cael wedi eu gosod. Penderfynwyd i CWG i anfon llythyr at Darren Millar yn ategu beth mae AV yn gofyn amdano.

**4.2** Hen siop fach yn Llangernyw - AV wedi cysylltu gydag AR yn ystod y mis gan fod llechi wedi disgyn i ffwrdd o'r to. Mae'r Cyngor Sir wedi gosod conau i geisio cadw pobl i ffwrdd o'r adeilad. Nid oes gwybodaeth ar y Gofrestr Tir o ran pwy yw'r perchennog ac felly penderfynwyd i CWG yrru llythyr at Mrs Mackeson-Sandbach yn gofyn am gymorth gyda hyn gan fod pryderon gan y gymuned am ba mor ddiogel ydyw.

**4.3** Yr Ardd Gerrig – bu iddo gael ei dorri gan Wil Edwards yn ystod y mis a nododd CR ei fod yn daclus iawn.

**4.4** Bu DR mewn pwyllgor Un Llais a thrafodwyd yno ei bod fyny i'r cyngor os ydynt yn gwneud croniadau neu ddim os yw'r trosiant o dan 100k. Dywedodd CWG fod Mel wedi gyrru dogfen i'r Cyngor Cymuned yn dangos yn ysgrifenedig nad oes angen gwneud croniadau.

**4.5** Posteri dim baw ci newydd wedi mynd i fyny wrth ymyl Parc Aelas a'r Cyngor Sir am dorri'r mieri sydd yn tyfu i'r ffordd yno.

**4.6** Diffibrilydd – CWG wedi cael gwybod yn ystod y mis gan Tomos Hughes nad ydynt am ariannu batris a phadiau dim mwy a bod padiau newydd yn costio tua £30 am rai arferol a £150 am rai da. Bu i CR a CWG gwrdd ag Ifan Rowlands o'r Cyngor Sir i drafod lleoliad posib i'r diffibrilydd newydd a dywedodd nad oes polyn addas ar ei gyfer ac mai ar du blaen y Stag

fyddai'r safle gorau. Penderfynwyd i CWG siarad gyda Darryl neu Maria i weld os yw'n bosib ei leoli yno a gan fod yr arian grant newydd fynd i mewn gall CWG drefnu i archebu'r diffibrilydd rŵan. Penderfynwyd i ofyn am iddo weithio drwy fewnbynnu côd a chael logo grant Clocaenog arno.

**4.7** CWG wedi derbyn e-bost gan y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) yn ymateb i'r e-bost dyddiedig 13.5.24 yn cadarnhau eu bod wedi ei dderbyn ac wedi nodi na wnaeth unrhyw Gynghorydd dderbyn lwfans am y flwyddyn ariannol 2023-24.

**4.8** Pwyllgor ardal leol Un Llais - adroddiad gan DR wedi ei yrru i bawb ar e-bost. Nododd fod Cyngor Cymuned Bodelwyddan wedi cael bil archwilio o £1,300. Gofynnodd MGD os oes rhaid cael archwiliad yna a ddylai bod amcan bris yn cael ei rannu o flaen llaw?

**4.9** Twb blodau wrth Glan Collen sydd wedi ei dorri – mae'r sir yn gofyn am dystiolaeth mai'r nhw a wnaeth. Dywedodd JR ei bod wedi ei weld yn digwydd, bod dyn wedi dreifio drosto ac wedi stopio i edrych arno.

**5 CEISIADAU CYNLLUNIO**
**5.1** Cais Rhif 0/51787 Bont Syllty, Llangernyw LL22 8RL
Pawb yn cefnogi.
[AR yn cyrraedd]

**5.2** Cais Rhif 0/51790 Tŷ Uchaf, Llangernyw LL22 8RS
Dywedodd EW ei fod yn arbed yr adeilad a JR ei fod yn gartref i rywun ifanc. Pawb yn cefnogi.

**6 MATERION CYNGOR**
**6.1** Is-bwyllgorau – gofynnodd CWG pa mor aml oedd angen cwrdd mewn blwyddyn.
Dywedwyd fod yr is-bwyllgor mynwentydd fel arfer yn cwrdd ar ddechrau'r flwyddyn a'r is-bwyllgor Llwybrau ac Amgylchedd ym mis Medi.

**6.2** Bydd EW yn mynychu cwrs Y Cyngor fel Cyflogydd ar 04/09/2024 ac mae bwrsari ar gael i unrhyw un arall fynychu unrhyw gwrs hefyd. Dywedodd DR yr hoffai fynychu'r cwrs sut i ymgysylltu gyda'r gymuned.

**6.3** Mae sedd wag yn dilyn ymddiswyddiad Mark Davies o'r rôl fel Cynghorydd. Dywedodd CR fod hyn yn drist iawn gan ei fod wedi bod yn weithgar iawn yn y gymuned ac yn golled fawr. Bydd angen i CWG gysylltu gyda Sian Branwen Williams yn y Cyngor Sir i ofyn am gyngor ynglŷn â beth i'w wneud nesaf.

**7 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**
**7.1** Trafodwyd yr holl broblemau sydd wedi bod yn digwydd o ran y sgipiau ac ailgylchu a phasiwyd i CWG yrru llythyr i'r Cyngor Sir yn nodi sgil-effeithiau toriadau y mae'r cyngor yn ei wneud.

**7.2** Gwaith ail-wynebu i fyny am Hafodunos heb ddigwydd eto oherwydd y tywydd ond gobeithio y bydd yr wythnos nesaf.

**7.3** Gwaith wrth ymyl Glan Aber wedi ei gwblhau ond bydd angen gwneud ychwaneg o waith yn nes ymlaen.

**7.4** Siop fach - AR wedi rhoi gwybod i Emyr, wedyn Rheolaeth Adeiladu a bod conau wedi eu rhoi i fyny. Mae'r Cyngor Sir am gysylltu gyda'r perchennog a bydd diweddariad erbyn y pwyllgor nesaf.

**7.5** Tŷ Du - AR wedi bod yno yn gweld ac nid oedd bagiau yno. Mae wedi siarad gyda'r adran amgylchedd ac maent wedi cymryd y cyfeiriad i weld os yw'n cael ei osod fel bwthyn gwyliau. Bydd AR yn cysylltu gyda'r perchennog, bydd rhaid rhoi'r bagiau mewn bin pwrpasol a byddent yn gorfod talu i'w waredu.

**7.6** Pot blodyn – gan fod JR yn llygad dyst bydd AR yn cysylltu gydag Emyr i geisio datrys y sefyllfa. Mae AR wedi torri o gwmpas y potiau blodau ym Mhandy Tudur ei hun gan nad yw'n gyfrifoldeb y Cyngor Sir a diolchwyd iddo am ei waith gan bawb.

**7.7** AR wedi gyrru e-bost gan Fenter Môn ymlaen at bawb heno. Maent yn ymchwilio i gysylltiad digidol yng nghefn gwlad. Os ydych yn gwybod am rywun gyda diddordeb yna angen cysylltu a gallent drefnu diwrnod agored yn y pentref. Penderfynwyd i CWG ei hysbysebu ar y wefan a'r hysbysfwrdd.

Gofynnodd DR am her yr hinsawdd gan Gyngor Conwy sy'n sôn am addasu adeiladau yn dai fforddiadwy, a oes gan y cyngor unrhyw gynlluniau? Atebodd AR fod y Cyngor Sir newydd basio cynllun ym Mae Colwyn sy'n addasu hen gartrefi i'r henoed yn fflatiau fforddiadwy.

Gofynnodd MGD wrth AR pan fydd gydag Emyr eto yna oes bosib iddynt fynd heibio Foel Gadeiriau gan fod tyllau yn y ffordd yno. Dywedodd CR bod twll yn y ffordd wrth ymyl Ty'n Caeau. Gofynnodd AV pam fod y ffordd wedi cau wrth allt *Waterloo* heibio Tan y Graig yr wythnos diwethaf? Atebodd AR y byddai'n gwneud ymholiadau yfory.

Dywedodd EUW bod ffordd Gwytherin am Bandy Tudur wedi cau a neb yn siŵr pam. Atebodd AR fod llawer o ffyrdd wedi cau oherwydd problemau dwr. Dywedodd DR fod pont Llangernyw wedi cael ei daro ac yn gwaethygu ac atebodd AR y byddai'n gofyn iddo gael archwiliad. Cododd DR hefyd y mater bod Sir Ddinbych yn codi llawer llai am eu harwyddion cyflymder na Chonwy? Dywedodd AR y byddai yn gwneud ymholiadau.

**8 MATERION ARIANNOL**

**8.1** Adroddiad chwarterol - wedi ei rannu gyda phawb dros e-bost - pawb yn cytuno.

**9 GOHEBIAETH**

**9.1** Gwybodaeth am grant gan Tesco i fudiannau yn ardal Abergele. Penderfynwyd i CWG ei rannu ar y wefan a'r hysbysfwrdd.

**9.2** Wedi derbyn neges gan Darren Millar yn cynnig dod i bwyllgor i drafod materion a mynd a nhw yn ôl i'r Senedd. Penderfynwyd i ofyn iddo ddod i gyfarfod un ai mis Medi neu Hydref, beth bynnag sy'n gyfleus.

Wedi gyrru'r canlynol ymlaen i bawb dros e-bost:
**9.3** Gwybodaeth am hyfforddiant am ddim i Gynghorwyr gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
**9.4** Dyddiadau hyfforddiant Gorffennaf, Awst a Medi gan Un Llais Cymru
**9.5** E-bost gan Melissa Davies o Gyngor Conwy yn gofyn am ddigwyddiadau a manylion cyswllt rhwng rŵan a diwedd mis Awst. Mae CWG wedi ymateb a diolch i DR ac EW am gytuno i'w henwau gael eu rhannu fel cynrychiolwyr ar y sioeau.
**9.6** Ymgynghoriad ynghylch Treth y Cyngor i ail gartrefi a chartrefi gwag
**9.7** Newyddlen Her yr Hinsawdd gan Gyngor Conwy
**9.8** Prosiect Datblygu Dan Arweiniad y Gymuned - grant o hyd at £10,000 yn Sir Conwy ac mae cynghorau Cymuned yn gymwys i wneud cais.
**9.9** Llythyr wedi ei dderbyn gan gan aelod o'r cyhoedd yn gofyn am gladdu llwch yn y fynwent yn Llangernyw, pawb yn cytuno.

**10 BILIAU**
**10.1** Bil cyfieithu Enlli - £95
**10.2** Bil torri gwair Dei Evans ar gyfer mis Mehefin a Gorffennaf - £460 x2 = £920
**10.3** Bil 3.5 awr o strimio yn yr ardd gerrig gan Wil Edwards - £40
**10.4** Bil gan Iona am edrych dros y cyfrifon - £120
Cytunodd pawb i dalu'r uchod i gyd.

**11 MATERION LLEOL**
**MGD** – gofynnodd a fyddai'r Cyngor Cymuned yn ystyried cysylltu gyda Dwr Cymru ar ran y gymuned i gael eglurhad o beth sy'n digwydd, digolledu a gwneud yn iawn. Penderfynwyd i CWG yrru llythyr i Ddŵr Cymru.

**EUW** – dywedodd bod hysbysfwrdd Gwytherin bron a darfod, Dywedodd CR wrthi i ofyn wrth Geraint os all o ei atgyweirio/gwneud un newydd ac os ddim yna gofyn i Kevin Roberts i wneud.

**DR** – dywedodd ei bod am staenio'r hysbysfwrdd wrth yr Eglwys yn Llangernyw.

**EW** – bancio ar-lein gyda HSBC – bydd yn trefnu i gwrdd gyda CWG dros yr haf i'w sortio.

**JR** – dywedodd bod coed wedi eu torri wrth Pen y Bont a bod y llwch lli wedi dod i lawr efo'r dŵr ac ar hyd y llwybr cerdded. Bydd JR yn gwneud ymholiadau i weld pwy yw'r perchennog.

**AV** - Mae angen torri peth o'r gwair sydd wedi gordyfu yn y fynwent yn Llangernyw cyn bod claddedigaeth yn cymryd lle yno. Os nad yw Dei yn gallu yna bydd angen gofyn am rywun arall i'w wneud. Gofynnodd a yw'n bosib bod cerdyn yn cael ei yrru i Mark i ddiolch am ei holl waith. Atebodd CR nad yw'r Cyngor Cymuned yn gwneud hyn ond ei fod yn cydnabod ei waith caled a'i fod wedi diolch iddo ar e-bost.

**12 CYFARFOD NESAF**
Medi 25ain 2024 yng Ngwytherin.
Cyfarfod yn dod i ben am 21:20
Cymerwyd y cofnodion gan CWG.